**Cyfarfod Fforwm Hil Cymru**
**8 Rhagfyr 2016 rhwng 11am a 12.30pm**
**Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**

**Yn Bresennol:**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**

| | |
|---|---|
| Mandy Burrows | Cydlynydd Rhanbarthol Cydlyniant Cymunedol, Gogledd Ddwyrain |
| Rocio Cifuentes | Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) |
| Aled Edwards | Cynrychiolydd o'r Fforwm Cymunedau Ffydd |
| Shahien Taj | Sefydliad Henna |
| Isaac Blake | Cwmni Celfyddyd a Diwylliant Romani |
| David Phillips | Grŵp Cydraddoldeb Cymru |
| Menaka Kodur | Women Connect First |
| Daniel Hurford | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Tracy Sherlock | Cyngor Ffoaduriaid Cymru |

**Swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Paul Dear | Tîm Cydraddoldeb |
| Emma Small | Tîm Cydraddoldeb |
| Andrea Adams | Tîm Cydraddoldeb |
| Steve Chapman | Cydlynydd Atal Caethwasiaeth |
| Martin Davies | Rheolwr Cymunedau |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Uzo Iwobi | Cyngor Hil Cymru |
| Sunil Patel | Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth |
| Catherine Fortune | Prosiect Unity |
| Shereen Williams | Cydlynydd Rhanbarthol Cydlyniant Cymunedol, Dwyrain Gwent |
| Samsunear Ali | BAWSO |
| Owain Rhys | Cymdeithas Hanes Pobl Dduon |
| Melineh Essavy | Hope2Shine |

**Gair o Groeso a Chyflwyniadau**
Cytunwyd y byddai Paul Dear yn cadeirio'r cyfarfod nes bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cyrraedd am 11:30am. Croesawodd Paul bawb i'r cyfarfod. Ymunodd Mandy Burrows â'r cyfarfod drwy gynhadledd fideo o Gyffordd Llandudno.

Cyflwynodd Paul Emma Small, a ymunodd â'r Tîm Cydraddoldeb fis Rhagfyr ac a fydd yn gyfrifol am faterion yng nghyswllt Cydlyniant Cymunedol.

**Cyflwyniad: Cymunedau Cadarn – Martin Davies, Rheolwr Cymunedau**
Eglurodd Paul fod Martin Davies, Rheolwr Cymunedau, wedi gofyn am gael cyfle i roi gwybod i'r Fforwm am y rhaglen ymgysylltu sydd ar y gweill yng nghyswllt Cymunedau Cadarn.

Eglurodd Martin fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant wedi gwneud datganiad yn y Cynulliad ar 11 Hydref 2016. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod "yn ystyried dod â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben yn

raddol, gan sefydlu dull newydd o fynd i'r afael â heriau'r dyfodol ar yr un pryd". Eglurodd Martin fod hyn wedi arwain at gyhoeddusrwydd anghywir a oedd yn awgrymu bod penderfyniad eisoes wedi'i wneud i ddod â Chymunedau yn Gyntaf i ben. Pwysleisiodd Martin nad oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud yng nghyswllt Cymunedau yn Gyntaf.

Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant eisiau penderfynu p'un ai Cymunedau yn Gyntaf oedd y ffordd orau o gyflawni ar gyfer cymunedau o hyd, neu beidio. O ganlyniad i hyn, byddai rhaglen gynhwysfawr o ymgysylltu yn cael ei chynnal cyn bod penderfyniad yn cael ei wneud. Byddai unrhyw newid i raglen Cymunedau yn Gyntaf yn cael effaith ar yr unigolion sy'n defnyddio'r rhaglen a'r rheini sy'n gweithio iddi, yn ogystal â'r ardaloedd y mae'r rhaglen yn gweithredu ynddynt, y sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ar ei chyfer a'r adeiladau cymunedol sy'n cael eu defnyddio at ddibenion y rhaglen.

Cyflwynwyd yr arolwg ar-lein ym mis Hydref a bydd ar agor tan 15 Ionawr 2017. Mae dros 1,400 o ymatebion wedi dod i law hyd yma. Yn ogystal â'r arolwg ar-lein, mae Llywodraeth Cymru eisiau ymgysylltu â phobl a rhwydweithiau ledled Cymru, nid dim ond y rheini sydd yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Derbyniwyd gohebiaeth a fydd yn cael ei hystyried yn y dadansoddiad hefyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio canfod yr effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn benodol. Mae WCVA, ar ran Llywodraeth Cymru, wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau ar gyfer sefydliadau cynrychioladol a nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ar gyfer y cyhoedd. Hefyd, mae dau ddigwyddiad cyhoeddus yn cael eu cynnal gyda'r bwriad o gasglu safbwyntiau pobl o'r tu allan i'r rhaglen. Bydd un grŵp yng Ngogledd Cymru a'r llall yn Ne/De-Orllewin Cymru.

Eglurodd Martin na fyddai'r gwaith ymgysylltu cyhoeddus yn canolbwyntio'n llwyr ar raglen Cymunedau yn Gyntaf, ond hefyd ar sut gallai Llywodraeth Cymru gefnogi cymunedau cadarn yn y ffordd orau bosibl.

Gan fod yr arolwg ar-lein yn fwy priodol ar gyfer unigolion, mae holiadur ar wahân wedi cael ei ddatblygu yn arbennig ar gyfer sefydliadau er mwyn cyflwyno eu hymatebion i Lywodraeth Cymru. Bydd yr ystadegau a gesglir o'r arolwg ar-lein yn cynnwys nifer o gwestiynau ynghylch nodweddion gwarchodedig.
Rhoddodd Martin wybod i'r grŵp bod y gwaith ymgysylltu yn dal ar y gweill ac anogodd bawb i gymryd rhan.

**Cam Gweithredu:** Yr ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu'r ddolen i'r Holiadur ar gyfer Sefydliadau.

**<u>Ymunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant â'r cyfarfod am 11:30am</u>**

Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet bawb i'r cyfarfod.

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir. Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet am y wybodaeth ddiweddaraf yng nghyswllt canlyniadau'r ohebiaeth a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Trechu Tlodi yn dilyn y cyfarfod diwethaf.

**Cam Gweithredu:** Yr ysgrifenyddiaeth i gael y wybodaeth ddiweddaraf erbyn y cyfarfod nesaf.

## Materion yn Codi

### Diweddariad: Canfod troseddau casineb yn system y llysoedd – Paul Dear, Pennaeth y Tîm Cydraddoldeb

Fe wnaeth Paul atgoffa'r Fforwm am ymrwymiad y Gweinidog Trechu Tlodi i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gofnodi troseddau casineb yn y llysoedd yn y cyfarfod hwn. Eglurodd Paul fod Cynllun Gweithredu Llywodraeth y DU yn cynnwys cam gweithredu i ddatblygu system TG newydd i'w defnyddio ledled y system cyfiawnder troseddol, a fydd yn galluogi'r llywodraeth, yr heddlu, y CPS a system y llysoedd i rannu gwybodaeth er mwyn olrhain troseddwyr fel bod data'n cael eu darparu o'r cyhuddiad cyntaf, drwy'r llysoedd ac i'r gwaith o reoli troseddwyr.

Cadarnhaodd Paul fod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio â'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ar gyfer Troseddau Casineb (HCCJB) er mwyn sicrhau bod modd lliniaru materion cysylltiedig o ran rhannu data. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'r llysoedd yng Nghymru i sicrhau bod modd adnabod y rheini sy'n cyflawni troseddau casineb. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru i lunio ymyriad er mwyn gweithio gyda throseddwyr yn y gymuned.

### Eitem 1 – Ystadegau yng nghyswllt Troseddau Casineb – Paul Dear, Pennaeth y Tîm Cydraddoldeb

Eglurodd Paul fod y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ar gyfer Troseddau Casineb (HCCJB) yn fforwm allweddol o ran gweithio mewn partneriaeth ym maes Troseddau Casineb yng Nghymru. Mae'n dod â'r pedwar heddlu, asiantaethau'r trydydd sector a phartneriaid allweddol eraill, fel Gwasanaeth Erlyn y Goron, at ei gilydd. Mae gwaith HCCJB yn cynnwys cydlynu agwedd ar y cyd yng nghyswllt Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, gan sicrhau bod negeseuon allweddol yn cyrraedd cymunedau ledled Cymru.

Er mwyn sicrhau bod dull partneriaeth a chysondeb o ran datblygu gwaith ledled meysydd heb eu datganoli, dywedodd Paul fod angen cynrychiolaeth o'r Swyddfa Gartref ac o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar HCCJB, yn ogystal ag aelodau allweddol eraill.

Yng nghyfarfod diwethaf HCCJB ym mis Medi, cafwyd cyflwyniad grymus gan Uzo Iwobi o Gyngor Hil Cymru am y cynnydd mewn troseddau casineb yn dilyn y Refferendwm ar yr Undeb Ewropeaidd. Nododd Uzo bryderon gwirioneddol gan Gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig (BAME) a rhoddodd

rai enghreifftiau go iawn o droseddau casineb yng nghyswllt hil a'r effaith maent yn ei chael ar ddioddefwyr a’u teuluoedd.

Rydyn ni’n gwybod bod nifer y troseddau casineb a gyflawnir wedi cynyddu, yn enwedig mewn perthynas â hil, yn dilyn y Refferendwm – cynnydd o 72% yn nifer yr achosion a gyfeiriwyd at y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer rhoi Cymorth ac Adrodd am Droseddau, o gymharu â’r nifer yr achosion a gyfeiriwyd ati ym mis Gorffennaf 2015. Aeth hyn yn ei flaen ym mis Awst hefyd – gyda chynnydd o 62% o gymharu â mis Awst 2015.

Mae’n bwysig sicrhau bod ein neges yn glir – sef bod hiliaeth yn annerbyniol – a bod hyn yn mynd law yn llaw â chydnabod y broblem a rhoi anogaeth gadarnhaol i ddioddefwyr am ba mor bwysig yw adrodd am droseddau. Mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud ledled yr Heddlu, Llywodraeth Cymru a Chymorth i Ddioddefwyr i annog pobl i adrodd am droseddau, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol.

Eglurodd Paul fod Llywodraeth Cymru wedi neilltuo cyllid i Gomisiynwyr Troseddau a’r Heddlu er mwyn ymgysylltu â'r gymuned a chodi ymwybyddiaeth ledled Cymru, gan ganolbwyntio ar herio agweddau ac ymddygiadau sylfaenol yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb. Cynhaliwyd llawer o weithgareddau a digwyddiadau yn ystod y cyfnod hwn a byddwn yn darparu adroddiad ar hyn yn fuan.

Cynhaliodd Ysgrifennydd y Cabinet drafodaeth lawn yr wythnos hon: “Mynd i’r afael â Throseddau Casineb – cynnydd a heriau”. Rhoddodd hyn gyfle i amlygu’r cynnydd sydd wedi’i wneud i fynd i'r afael â throseddau casineb yng Nghymru ac i fwrw ymlaen â’r camau gweithredu yn ein Fframwaith Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb. Hefyd, rhoddodd hyn gyfle i amlygu rhai o'r heriau, yn enwedig yng nghyswllt digwyddiadau diweddar.

Trosolwg – Ystadegau yng nghyswllt Troseddau Casineb 2015-16
Rhyddhawyd ystadegau yng nghyswllt Troseddau Casineb ar gyfer Cymru a Lloegr gan y Swyddfa Gartref ddydd Iau 13 Hydref, sy’n dangos cynnydd o 6% yn nifer y troseddau casineb a gofnodwyd ledled Cymru o gymharu â 2014-15. Gellir cymharu hyn â chynnydd cyffredinol o 19% yng Nghymru a Lloegr. Cofnodwyd 2,405 o droseddau casineb ym Mhedair Ardal yr Heddlu yng Nghymru, ac roedd y rhain yn cynnwys:

- 1,747 (73%) o droseddau casineb ar sail hil;
- 372 (15%) o droseddau casineb ar sail cyfeiriadedd rhywiol;
- 119 (5%) o droseddau casineb ar sail crefydd;
- 244 (10%) o droseddau casineb ar sail anabledd; a
- 35 (1%) o droseddau casineb ar sail trawsrywedd.

Mae’n bosib bod mwy nag un ffactor yn cymell trosedd casineb; dyna pam nad yw’r rhifau uchod yn dod i gyfanswm o 2,405 na 100%.

Mae nifer y troseddau a gofnodwyd yng nghyswllt pedwar o'r pum nodwedd warchodedig wedi cynyddu; o gymharu â 2014-15, gan gynnwys:

- 4% o gynnydd mewn troseddau casineb ar sail hil (o 1,677 i 1,747);

- 6% o gynnydd mewn troseddau casineb ar sail cyfeiriadedd rhywiol (o 351 i 372);
- 42% o gynnydd mewn troseddau casineb ar sail crefydd (o 84 i 119);
- 21% o gynnydd mewn troseddau casineb ar sail anabledd (o 202 i 244); ac
- 8% o gynnydd mewn troseddau casineb ar sail trawsrywedd (o 38 i 35).

Mae nifer y troseddau a gofnodwyd mewn dwy o bedair Ardal yr Heddlu wedi cynyddu:

- Dyfed Powys – 114 o droseddau casineb (cynnydd o 15% ers 2014-15);
- Gwent – 213 o droseddau casineb (gostyngiad o 20% ers 2014-15);
- Gogledd Cymru – 385 o droseddau casineb (gostyngiad o 2% ers 2014-15);
- De Cymru – 1,693 o droseddau casineb (cynnydd o 13% ers 2014-15).

Rhwng 2011-12 a 2015-16 mae nifer y troseddau casineb a gofnodwyd gan yr Heddlu yng Nghymru wedi cynyddu 33%, o 1,809 i 2,405.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod eisiau seilio polisïau Llywodraeth Cymru ar bobl go iawn. Dywedodd ein bod wedi buddsoddi yn ein cymunedau drwy adnewyddu cyllid wyth o swyddfeydd cydlyniant cymunedol ledled Cymru. Ond all y Llywodraeth ddim gwneud popeth, mae'n rhaid i gymunedau ysgwyddo cyfrifoldeb.
Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Dydy llawer o bobl o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr ddim yn gwybod sut mae adrodd am droseddau casineb. Roedd rhai pobl a oedd wedi ceisio adrodd am droseddau casineb yn teimlo nad oedd y system wedi gweithio iddyn nhw.
- Derbyniodd Ysgrifennydd y Cabinet wahoddiad i ymweld â safle Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru i weld pa wybodaeth sydd ar gael yng nghyswllt adrodd am droseddau casineb.
- Mae cymunedau BAME wedi cyflwyno adroddiadau i sefydliadau'r trydydd sector yn nodi nad oeddent yn ymwybodol o ganlyniadau adrodd am droseddau, a bod hyn yn achosi rhai pobl i gwestiynu pwrpas adrodd am droseddau.
- Beth am atal troseddau casineb? Mae angen gwneud rhagor o waith i atal y troseddau.

Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i bawb am eu sylwadau a dweud ei fod eisiau polisi sy'n canolbwyntio ar bobl ac sy'n seiliedig ar brofiadau pobl. Byddai ganddo ddiddordeb mewn clywed manylion gan unigolion nad yw'r system wedi gweithio iddynt. Gallai achosion fel hyn helpu i lunio polisïau ar droseddau casineb a gwella gwasanaethau'r rheng flaen er mwyn cael llwybr clir rhwng adrodd ar droseddau casineb a gweithredu arnynt. Cytunodd hefyd bod angen canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn fuan, a chyfeiriodd at y rhaglen waith newydd gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru i amddiffyn plant rhag Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs).

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod eisiau annog cydweithredu cenedlaethol er mwyn mynd i'r afael â throseddau casineb ac y bydd yn codi'r mater hwn gyda Gweinidog y Swyddfa Gartref yn ei gyfarfod nesaf â hi.

**Camau Gweithredu:**

i) Swyddogion i drefnu bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cael clywed enghreifftiau penodol gan bobl sy'n rhan o'r broses o adrodd am droseddau casineb.

ii) Swyddogion i drefnu bod Ysgrifennydd y Cabinet yn ymweld â safle Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru i weld pa wybodaeth sydd ar gael yng nghyswllt adrodd am droseddau casineb.

**Eitem 2 – Atal Caethwasiaeth yng Nghymru – Steve Chapman Cydlynydd Atal Caethwasiaeth Llywodraeth Cymru**

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mai Cymru yw'r unig wlad yn y DU sydd wedi penodi Cydlynydd Atal Caethwasiaeth. Rydyn ni hefyd wedi sefydlu Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth yng Nghymru i ddarparu arweiniad strategol a chanllawiau ar sut mae mynd i'r afael â chaethwasiaeth yng Nghymru, ac i ddarparu'r cymorth gorau posibl i'r rheini sydd wedi goroesi. Mewn sawl ystyr, mae Cymru yn arwain y ffordd yn y DU o ran mynd i'r afael â chaethwasiaeth, gyda dulliau strategol ar waith i godi ymwybyddiaeth, i hyfforddi ac i wella deallusrwydd. Estynnodd Ysgrifennydd y Cabinet wahoddiad i Steve Chapman, Rheolwr Atal Caethwasiaeth Cymru, roi cyflwyniad am ei swydd ei hun a gwaith y Grŵp Arwain.

Eglurodd Steve bod y Grŵp Arwain wedi llunio cwrs hyfforddi tri diwrnod ar gyfer yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yng Nghymru, ac wedi'i roi ar waith. Dim ond y bobl sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant a fydd yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddelio ag achosion sy'n ymwneud â chaethwasiaeth modern. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu ymgyrch ymwybyddiaeth gyda chymorth gan y trydydd sector.

Mae'r cwrs wedi cael ei gynnal i dros 4,500 o bobl yn y gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys yr Heddlu, erlynwyr a sefydliadau'r trydydd sector. Mae Grŵp Atal Caethwasiaeth y DU yn defnyddio'r deunyddiau hyfforddi fel rhan o'u canllawiau ar ymarfer gorau. Does dim digon o bobl yn adrodd am gaethwasiaeth – ond nawr mae wedi cael ei amlygu yn y gwaith llwyddiannus o ddedfrydu ac erlyn proffil uchel yng Nghymru yn ddiweddar. Mae caethwasiaeth yn drosedd a dylid adrodd amdano drwy ffonio 101 neu 999. Bydd gweithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi yn delio â'r adroddiadau ac yn sefydlu beth yw'r drosedd benodol a gyflawnwyd.

Ym mis Chwefror 2017 bydd Llywodraeth Cymru yn lansio'r Canllawiau ar Gyflogaeth Foesol yn ffurfiol. Bydd y Canllawiau yn gofyn i gyflogwyr nodi'r hyn maent yn ei wneud er mwyn helpu i ddileu caethwasiaeth modern yn eu sefydliadau. Bydd gofyn iddynt fod yn rhagweithiol wrth ddelio ag isgontractwyr ac asiantaethau cyflogaeth eraill y maent yn ymgysylltu â nhw.

Ar hyn o bryd, cam-fanteisio ar weithwyr yw'r categori o gaethwasiaeth yr adroddir arno amlaf yng Nghymru. Nid mater BAME yn unig ydyw: Mae Ystadegau'r Swyddfa Gartref yn dangos bod hon yn drosedd sy'n effeithio ar

ddioddefwyr mewn pob math o gymunedau cynhenid. Caiff y cyrsiau hyfforddiant am gaethwasiaeth sydd ar gael eu darparu'n rhad ac am ddim ledled Cymru drwy'r Grwpiau Atal Caethwasiaeth Rhanbarthol.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y gwaith hwn yn arloesol a'i fod yn croesawu cymorth parhaus gan sefydliadau i ddadlennu'r drosedd hon.

**Cam Gweithredu:** Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn cysylltu ag aelodau gyda manylion y cyrsiau hyfforddi.

**Eitem 3 – Unrhyw Fater Arall**

**Prosiect Mynd i'r Afael ag Eithafiaeth**

Cadarnhaodd Rocio na fydd Sunil Patel yn ymgymryd â swydd newydd yn EYST i arwain y gwaith o gynnal y Prosiect Mynd i'r Afael ag Eithafiaeth. Fodd bynnag, bydd y Prosiect yn cael ei gyflawni yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni.

**Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE)**

Holodd David am ddyfodol cyfarfodydd BAGE. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn ystyried rôl BAGE yn y dyfodol a sut gallwn ni fanteisio ar arbenigedd y cynrychiolwyr yng nghyfarfodydd BAGE.

**Eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf**

Estynnodd Ysgrifennydd y Cabinet wahoddiad i'r Fforwm gynnig syniadau am faterion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf.

**Cam Gweithredu:** Yr ysgrifenyddiaeth i gymryd camau dilynol gydag aelodau'r Fforwm.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd dyddiad y cyfarfod nesaf yn 2017 yn cael ei anfon at aelodau yn fuan.